**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/01535/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

10 Hydref 2017

Annwyl David

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Medi am y ddeiseb gan Chris Evans, sy'n ceisio cefnogaeth i ofyn i Lywodraeth Cymru ymyrryd ym mhenderfyniad Cymwysterau Cymru i ganiatáu i gyrff dyfarnu gynnal cwrs TGAU Seicoleg yng Nghymru drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Rwy'n nodi'r pwyntiau a godwyd yn y ddeiseb. Cafodd swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran rheoleiddio cymwysterau a'r system gymwysterau eu diddymu ym mis Medi 2015 wrth sefydlu Cymwysterau Cymru yn rheoleiddiwr annibynnol. Cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru yw'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo a dynodi cymwysterau, fel y cwrs TGAU Seicoleg.

Efallai y byddai'n fwy priodol ichi gysylltu â Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru i drafod y mater ymhellach. Dyma ei gyfeiriad e-bost:
Philip.Blaker@cymwysteraucymru.org

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.